Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn

**Ffordd Dinbych**
**Rhuthun**
**LL15 1NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 90 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y Cynradd yw 23.0%) | 35% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y Cynradd yw 16.1%) | 37.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 7.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn yn ysgol hapus a gweithgar lle mae arweinwyr a staff wedi meithrin perthnasoedd cryf â'r gymuned i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr dyheadol ac uchelgeisiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr, staff, a llywodraethwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i greu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae disgyblion yn deall ethos 'Borthyn BATS' ac yn ei ddefnyddio i'w cynorthwyo yn eu dysgu. Mae hyn yn amlwg yn yr agweddau cadarnhaol a ddangosant wrth ddelio â her. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol ac yn dangos moesau da, hiwmor a charedigrwydd at ei gilydd, ac at oedolion.

Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i wrando ar ddisgyblion ac yn defnyddio eu syniadau i wella'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn 'Senedd' dosbarth ac mae llawer ohonynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn ystod gwersi, yn rhoi cymorth, arweiniad ac adborth defnyddiol i'w helpu i wella'u gwaith. Maent yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dysgu disgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau clir ar gyfer y cynnydd maen nhw eisiau i'w disgyblion ei wneud. Mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i ddatblygu eu medrau datrys problemau mewn mathemateg, ac mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar eu syniadau creadigol.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu a mireinio eu hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn gosod y pedwar diben wrth wraidd eu cynllunio cwricwlwm, ac yn datblygu eu hymagweddau at addysgu effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod bron pob un o'r staff yn cydweithio'n dda i ddylanwadu ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac yn cael cyfleoedd perthnasol i wella'u harfer trwy ddysgu proffesiynol difyr.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r perthnasoedd cryf â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff a chânt eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith y mae eu plant yn ei wneud. O ganlyniad, mae ymrwymiad ar y cyd ar draws cymuned yr ysgol i gynorthwyo'i phlant i fod yn chwilfrydig a chael eu cyffroi gan ddysgu, trin pobl eraill yn dda ac ymdrechu i wneud eu gorau glas.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r orddibyniaeth ar daflenni gwaith i roi cyfleoedd gwell i ddisgyblion gyflwyno ac ailddrafftio eu gwaith

A2 Gwella medrau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg

A3 Mireinio ac ymgorffori ymagweddau at addysgu ac asesu sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion, a rhannu'r arfer dda hon ar draws yr ysgol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn meithrin cysylltiadau effeithiol gyda rhieni, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn yn ffynnu. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r amrywiaeth o brofiadau a gynigir gan yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu hyder yn eu galluoedd eu hunain, medrau cyfathrebu hyfedr a'r cymhelliant i fynd i'r afael ag unrhyw her.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ddarllenwyr brwdfrydig. Maent yn hapus i rannu eu hoff lyfrau o oedran ifanc, er enghraifft wrth siarad yn fywiog am eu llyfr dosbarth a mynegi barn am y cymeriadau. Mae plant iau yn datblygu eu strategaethau ffoneg yn dda ac yn defnyddio'r strategaethau hyn yn effeithiol i ddadgodio geiriau a datblygu rhuglder yn eu darllen.

Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen amrywiaeth dda o destunau yn fedrus, gan gynnwys storïau, barddoniaeth, cyfarwyddiadau, a gwefannau. Maent yn dethol gwybodaeth ac yn ei defnyddio yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth greu taflenni gwybodaeth am yr ardal leol, neu i ddarllen cyfarwyddiadau wrth ymgymryd â thasgau her annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn gwybod pwy yw eu hoff awduron ac yn esbonio sut maent yn uniaethu â'r cymeriadau. Mae disgyblion sydd angen mwy o gymorth â'u darllen yn cael cymorth ychwanegol gwerthfawr i helpu creu geirfa gweld, ac yn datblygu eu medrau dadgodio. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u hysgrifennu. Mae'r plant ieuengaf yn mwynhau ymarfer eu medrau creu marciau gan ddefnyddio pennau ysgrifennu, pensiliau, brwshys, a phaent. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn defnyddio geirfa eang ar draws ystod dda o genres ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu â hyder cynyddol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau ffantasi neu lenwi ceisiadau am swydd. Yn aml, mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu i ymgysylltu'n ystyriol â chyd-destunau heriol, er enghraifft wrth roi manylion am eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau siarad a gwrando da, maent yn sylwgar yn y dosbarth ac yn aml yn ymateb yn feddylgar ac yn glir i gwestiynau. Mae disgyblion iau yn gwrando'n ofalus ar storïau ac yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn defnyddio iaith ddifyr, er enghraifft wrth ddisgrifio'r cawl hydref roeddent wedi'i wneud. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa wrth siarad am eu gwaith, ac yn rhannu eu syniadau'n hyderus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn siarad yn hawdd ag oedolion a'u cyfoedion, ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd yn y dosbarth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau creadigol buddiol. Maent yn cynhyrchu gwaith celf wedi'i ddylanwadu gan eu hamgylchedd lleol, gan gymryd ysbrydoliaeth gan beintwyr lleol ac arlunwyr tirlun. Mae disgyblion iau yn ymchwilio i liw, siâp a gwead yn eu collages hydref, tra bod disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn

gweithdai drama lleol, ac yn ymgymryd â dawnsio traddodiadol o bob cwr o'r byd. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn dechrau meddwl yn greadigol a datrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn defnyddio boncyffion i groesi llyn yn llawn crocodeilod, ac mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn arbrofi â chylchedau trydanol a deunyddiau i ymchwilio i'r ffordd orau o wneud seiren effeithiol yn ystod ymosodiadau o'r awyr.

Yn y dosbarthiadau iau, mae disgyblion yn meithrin ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau heriau mathemateg, yn ymgymryd â gemau cyfrif ac yn paru gweithgareddau yn frwdfrydig. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae gan lawer ohonynt afael gadarn o ffeithiau rhif i 100, maent yn adnabod siapiau, yn defnyddio arian wrth iddynt chwarae ac yn datblygu hyder wrth ddweud yr amser. Mae disgyblion hŷn yn cynnal y cynnydd hwn ac yn cymhwyso eu medrau mathemategol yn dda, yn enwedig wrth gyfrifo gan ddefnyddio rhifau mwy. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fedrau mathemategol, gan gynnwys cymesuredd, trin data a ffracsiynau. Maent yn dechrau defnyddio eu gwybodaeth fathemategol yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i greu graffiau o ansawdd da fel rhan o'u gwaith ymchwiliol mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, er bod gan ddisgyblion fedrau rhifedd da, nid ydynt bob amser yn eu cymhwyso i lefel briodol i ddatrys problemau mewn cyd-destunau mwy heriol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dysgu cymhwyso eu medrau digidol i gefnogi dysgu mewn pynciau eraill. Mae disgyblion iau yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn annibynnol i dynnu lluniau a chofnodi a chadw eu gwaith. Maent yn dechrau defnyddio offer digidol i chwilio am wybodaeth a chreu graffiau a siartiau bar syml. Wrth iddynt fynd yn hŷn, daw disgyblion yn fedrus yn defnyddio offer digidol i wella'u gwaith. Maent yn creu fideos, gan ddefnyddio effaith 'sgrin werdd' i berfformio eu barddoniaeth, ac mae'r disgyblion hynaf yn dechrau datblygu eu medrau codio. Mae robotiaid rhaglennu mewn gweithdai codio wedi annog eu diddordeb yn y maes hwn o'r cwricwlwm.

Ceir ffocws cryf yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn i ddatblygu medrau echddygol manwl, lle mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pestl a mortar i falu sialciau, creu eu lliwiau powdr eu hunain a chymysgu a defnyddio paent. Cefnogir medrau corfforol disgyblion hŷn trwy amrywiaeth ehangach o chwaraeon fel badminton a lacrosse.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn datblygu'n briodol. Wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith cynnar, maent yn dechrau ymateb i gwestiynau am eu henw, y tywydd, lliwiau, a dyddiau'r wythnos. Yn ddiweddarach, maent yn defnyddio patrymau iaith yn bwrpasol i gyfleu gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain a darganfod gwybodaeth am bobl eraill. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau yn eu gwersi Cymraeg, maent yn llai hyderus o ran defnyddio'r iaith y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at fywyd ysgol a'u gofal a'u cymorth at ei gilydd yn adlewyrchu ethos a nodau'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu ac y gwrandewir arnynt. Maent yn credu

eu bod yn cael eu trin yn deg, yn gwrtais tuag at ei gilydd ac yn dangos moesau da wrth reddf tuag at staff ac ymwelwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus fod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn ystyried eu barn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gwella'u hysgol trwy eu Senedd dosbarth, ac yn ymfalchïo mewn esbonio sut maen nhw wedi gwneud pethau'n well. Enghraifft o hyn yw'r ardaloedd myfyrio sydd wedi'u creu ym mhob ystafell ddosbarth, a gyflwynwyd ar ôl i ddisgyblion ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn esbonio sut bydd y rhain yn cefnogi parodrwydd i wynebu heriau yn hyderus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â thestunau'r dosbarth. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6, er enghraifft, yn siarad am eu testun am y Titanic, ac mae disgyblion y dosbarth derbyn yn llawn cymhelliant i ymarfer eu hadnabyddiaeth o rifau gan ddefnyddio beiciau ar yr iard.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus, yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth a grŵp ac yn sgwrsio'n gadarnhaol ag oedolion anghyfarwydd. Maent yn herio'u hunain wrth ddewis tasgau, ac yn atgoffa'i gilydd yn rheolaidd am weledigaeth yr ysgol mewn gwersi. Ymgorfforir arwyddair 'Borthyn BATS', (Credu (Believe), Dyheu (Aspire), Ceisio (Try), Llwyddo (Succeed)) ym mywyd yr ysgol, ac mae'n hynod lwyddiannus wrth gymell disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn deall sut i'w herio eu hunain i fod yn y 'parth dysgu' ac yn addasu anhawster eu gweithgareddau yn annibynnol i gyflawni hyn. Mae llawer o ddisgyblion yn wydn ac yn cydnabod eu bod yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefelau priodol o ymdrech i gwblhau tasgau a heriau. Mewn un achos, gwrthododd disgyblion iau roi'r gorau, gan ddyfalbarhau yn eu tasg wrth i'r tŷ roeddent yn ei adeiladu ar gyfer yr 'anghenfil lliw' barhau i gwympo i lawr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall diben rheolau, gwobrau a chosbau a pham mae'r rhain yn bwysig. Maent yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt mewn gwahanol ardaloedd o'r ysgol, fel yr ystafell ddosbarth, yr ystafell gotiau neu ar yr iard. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos cwrteisi a charedigrwydd tuag at ei gilydd, ac yn bwyllog a chyfrifol wrth symud o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymwybodol o hawliau'r plentyn y Cenhedloedd Unedig a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w bywydau eu hunain. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion cynaliadwyedd yn lleol ac yn fyd-eang. Gwelir enghreifftiau o hyn yn eu gwaith yn y gymuned i ddod o hyd i ffyrdd o leihau ôl-troed carbon eu hysgol a'r dref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i wneud dewisiadau iach a chadw'n heini. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gorfforol egnïol yn ystod amser chwarae, ac mae pob un ohonynt yn cymryd rhan yn y filltir ddyddiol. Maent yn mwynhau chwarae sy'n

fwy heriol yn gorfforol gan ddefnyddio llwybr cadw'n heini'r ysgol, ac mae disgyblion hŷn yn esbonio pwysigrwydd 'cynhesu' yn gywir i osgoi cael anaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i fwyta'n iach. Er enghraifft, trwy eu testun 'bwyd, bendigaid fwyd' ('food, glorious food'), mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn disgrifio'n hyderus y bwydydd y gellir eu bwyta'n gymedrol fel rhan o ddiet iach. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dewis o blith amrywiaeth o ffrwythau i'w bwyta amser egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus, gan osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw, a chanolbwyntio ar eu dysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda â thasgau ystafell ddosbarth, yn gweithio'n synhwyrol gyda'u cyd-ddisgyblion ac yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill. Maent yn gweithio'n dda â'u partneriaid siarad, gan ymateb i adborth yn gadarnhaol, yn enwedig gan yr athro. Maent yn defnyddio'r adborth hwn trwy gydol gwersi yn bwrpasol i wella'u gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn defnyddio adborth o wersi blaenorol i ddyfnhau dysgu, fel ailddrafftio negeseuon e-bost yn Gymraeg. Fodd bynnag, ar adegau prin iawn, os oes gormod o 'siarad gan yr athro', mae disgyblion weithiau'n mynd yn fwy goddefgar yn eu dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol iawn gyda disgyblion wedi'u seilio ar ethos parchus a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gwrandewir arnynt. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, ac maent yn achub ar bob cyfle i atgyfnerthu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r effaith a gaiff addysgu ar ddatblygu meddylfryd cadarnhaol disgyblion wrth ddelio â her. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am bwysigrwydd bod yn y 'parth dysgu', ac yn manteisio ar y cyfle i wneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at ddatblygu a mireinio ymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu ethos yr ysgol, ac yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Maent yn cydweithio'n effeithiol i nodi sut maen nhw'n disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd ar draws y cwricwlwm a'r dysgu maen nhw eisiau i'w disgyblion ei gyflawni. Maent yn gosod pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru wrth wraidd yr addysgu a'r profiadau dysgu y maent yn eu darparu. Mae'r cysylltiadau datblygedig rhwng medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn nodwedd gref o gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn am y pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Maent yn cynnwys disgyblion mewn dylunio'r cwricwlwm; er enghraifft, maent yn cwblhau mapiau cysyniadau i archwilio syniadau ar gyfer testunau, ac yn darparu awgrymiadau ar gyfer tasgau dysgu'n annibynnol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, a natur unigryw Rhuthun. Mae disgyblion yn dysgu am fuddion bwyta'n iach trwy ymweld â siopau fferm lleol, er enghraifft crefftau lleol fel nyddu gwlân. At ei gilydd, mae staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol.

Mae athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu'n raddol ar fedrau disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn creu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ailymweld â'u dysgu blaenorol cyn symud ymlaen i'r dasg nesaf. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi esboniadau clir ac effeithiol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wneud eu gwaith yn hyderus. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn modelu ymagweddau effeithiol at ddysgu ac yn helpu disgyblion i adnabod nodweddion darn da o waith. Mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am ba mor ddefnyddiol yw'r enghreifftiau da hyn, yn eu barn nhw, gan gynnwys 'Sut olwg sydd ar un da' (Wagoll) a 'Sut olwg sydd ar un drwg' (Waboll). Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn rhoi gormod o strwythur i ddysgu disgyblion trwy ddefnyddio gormod o daflenni gwaith, sy'n cyfyngu ar ddewisiadau disgyblion ynglŷn â sut i gyflwyno a gwella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn addasu eu haddysgu'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn gwersi a thros gyfnod. Mae bron pob aelod o staff yn defnyddio holi yn fedrus i wirio dealltwriaeth, mynd i'r afael â chamdybiaethau a dyfnhau meddwl disgyblion. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus yn ystod gwersi ac yn rhoi adborth 'ar y pryd', sy'n herio disgyblion yn llwyddiannus i wella'u gwaith eu hunain. Er bod cyflymdra da i'r rhan fwyaf o wersi, mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn treulio'n rhy hir yn cyflwyno gweithgareddau, ac yn yr achosion hyn, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ymddieithrio â'u dysgu.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn ystyriol i gefnogi dysgu disgyblion a'u helpu i ddeall eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella eu hunain. Lle mae hyn yn hynod effeithiol, cânt eu creu ochr yn ochr â disgyblion, sy'n eu defnyddio'n naturiol fel rhan annatod o'u dysgu, i'w hatgoffa ynglŷn â sut i wneud eu gwaith neu'i wella. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio meini prawf llwyddiant i fyfyrio ar waith eu cyfoedion ac yn deall sut i roi adborth da i'w ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn dylunio eu hamgylcheddau ystafell ddosbarth yn ystyriol i gefnogi medrau disgyblion o ran dysgu'n annibynnol. Er enghraifft, defnyddir ardal yr ysgol goedwig yn dda i gefnogi trochi disgyblion yn y byd naturiol. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu eu syniadau ac yn dylanwadu ar eu dysgu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dewis o blith amrywiaeth wedi'i dewis yn ofalus o weithgareddau her annibynnol diddorol sy'n eu galluogi i ymarfer eu medrau a dyfnhau eu dealltwriaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu cymell i ddewis gweithgareddau sy'n eu herio, ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn Ysgol Gynradd Borthyn yn eithriadol o dda. Mae ethos gofalgar yn treiddio trwy fywyd yr ysgol, gan greu amgylchedd cynhwysol lle caiff yr holl ddisgyblion ac oedolion eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol.

Mae perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at hapusrwydd a lles disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae staff yn holi disgyblion am eu teimladau yn rheolaidd, ac yn darparu cymorth targedig ar gyfer y rhai sydd ei angen,

gan ddewis amrywiaeth o ymyriadau yn ofalus. Mae'r 'grŵp anogaeth brecwast', er enghraifft, yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion siarad am bynciau sy'n bwysig iddyn nhw, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar. Mae hyn yn sicrhau eu bod wedi ymlacio ac yn barod i ddysgu ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yn yr ysgol. Caiff athrawon eu cynorthwyo'n dda gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac o ganlyniad, maent yn nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae gan bob un o'r disgyblion yn yr ysgol broffil un dudalen y maen nhw a'u rhieni'n gysylltiedig â'i ysgrifennu. Mae'r rhain yn amlinellu eu diddordebau, sut maent yn hoffi cael eu cynorthwyo i ddysgu, a'u targedau ar gyfer gwella. Mae'r proffiliau hyn yn cryfhau dealltwriaeth yr ysgol o bob disgybl, ac yn helpu staff i gefnogi dysgu a lles.

Mae staff yn darparu ystod addas o ymyriadau sy'n cefnogi anghenion academaidd ac emosiynol disgyblion yn dda, gan gynnwys sesiynau celf a chymorth â ffoneg sy'n cyflymu cynnydd mewn darllen. Mae staff yn monitro dysgu disgyblion yn ofalus, ac mae pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. O bryd i'w gilydd, ni chaiff grwpiau ymyrraeth eu trefnu'n ddigon gofalus i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu ar y lefel briodol.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol i ofyn am hyfforddiant a chyngor ar gyfer staff a chymorth uniongyrchol ar gyfer disgyblion. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r hyfforddiant a gafodd staff gan dîm ymddygiad yr awdurdod lleol i'w cynorthwyo i ddeall ac addysgu disgyblion sydd wedi profi trawma.

Un o gryfderau'r ysgol yw ei bod yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn cael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i wella'u hysgol. Rhoddir cyfrifoldeb am faes cwricwlwm i Senedd pob dosbarth, ac maent yn gweithio ochr yn ochr â staff i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar draws yr ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys 'Senedd Lles' dosbarth B5/6 sy'n gwella lefelau ailgylchu yn yr ysgol, a mesur lefelau uwch fioled lleol i roi cyngor i'w cyd-ddisgyblion ar ba mor hir yr oedd yn ddiogel i aros allan yn yr haul.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddatblygu dealltwriaeth foesol, foesegol ac ysbrydol disgyblion trwy wasanaethau ysgol gyfan a dosbarth, ac mewn gwersi. Ceir cyfleoedd cynlluniedig rheolaidd i ddisgyblion archwilio egwyddorion sy'n eu helpu i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a ddim yn iawn, a myfyrio ar gwestiynau sylfaenol, ac ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain. Yn aml, caiff y cyfleoedd hyn eu harwain gan ddisgyblion, er enghraifft lle mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn rhannu fideo a grëwyd ganddynt ar thema haelioni.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu chwilfrydedd a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ffair yrfaoedd flynyddol lle mae rhieni ac aelodau o'r gymuned leol yn siarad â nhw am fyd gwaith. Wedyn, mae staff yn gweithio gyda disgyblion i ymchwilio i'w dewisiadau ar gyfer y dyfodol a'u helpu i fod yn uchelgeisiol tuag at eu rolau mewn cymdeithas yn y dyfodol.

Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion archwilio eu hunaniaeth, eu treftadaeth, a'u diwylliant. Maent yn defnyddio'r ardal yn dda i ehangu eu cwricwlwm, fel archwilio ffermio, cymryd rhan mewn gweithdai drama yng Nghastell Rhuthun a gweithio gydag arlunwyr lleol. Mae staff yn dechrau hyrwyddo dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy eu haddysgu, er enghraifft trwy ddathlu bywyd Martin Luther King. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i helpu disgyblion i ddeall natur amrywiol Cymru a'r Byd yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a theuluoedd. Mae rhieni'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn aml yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ochr yn ochr â'u plant. Ymgynghorir â nhw ar faterion sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant gartref, er enghraifft wrth ofyn am adborth ar effaith darpariaeth gwaith cartref. Mae staff yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ar-lein i rannu dysgu eu plant a dathlu llwyddiant a nodi meysydd i'w trafod a chymorth gartref.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio eu dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol. Fel rhan o'r prosiect ysgolion creadigol arweiniol, er enghraifft, gweithiodd disgyblion iau gydag arlunydd proffesiynol fel rhan o'u testun ffermio, ac arddangos eu gwaith yn y ganolfan grefftau leol. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau creadigol yn rheolaidd i berfformio o flaen cynulleidfaoedd; er enghraifft, mae côr yr ysgol yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod ac yng Ngŵyl leol Rhuthun. Er bod cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau chwaraeon allgyrsiol wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd, mae'r rhain yn dechrau cael eu hailsefydlu ar ôl y pandemig.

Mae arweinwyr a staff yn monitro presenoldeb disgyblion ac yn sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei rhoi ar waith i annog presenoldeb da. O ganlyniad, mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb ysgol. Un o gryfderau arbennig yr ysgol yw presenoldeb uchel y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu wedi'i ymgorffori yn ei harferion dyddiol, ac nid yw arferion a threfniadau ar gyfer diogelu yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n gosod lles a dyheadau disgyblion wrth wraidd ei gwaith. Mae arweinwyr yn fodelau rôl cryf ar gyfer disgyblion a staff. Maent yn adnabod cymuned eu hysgol yn dda ac yn gweithio gydag ymroddiad i sicrhau bod yr holl deuluoedd, gan gynnwys y rhai sydd dan anfantais yn sgil tlodi, yn cael eu cynorthwyo'n dda. Mae'r cysylltiadau cryf ac effeithiol hyn gyda rhieni yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Maent yn sicrhau ymrwymiad ar draws y gymuned gyfan i wella dysgu disgyblion a chefnogi eu lles.

Mae llywodraethwyr yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol; maent yn falch o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynorthwyo'r pennaeth a'r staff. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys natur wedi'i gyrru gan ddiben y Cwricwlwm i Gymru, ac ymrwymiad yr ysgol i wella defnydd disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth uwch arweinwyr, wedi creu diwylliant effeithiol o gyd-gyfrifoldeb ar gyfer hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i osod blaenoriaethau ar gyfer gwella a monitro cynnydd. Mae pob un o'r athrawon yn ymgymryd â rolau arwain ac fe gânt ddylanwad uniongyrchol ar gyfeiriad yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i lunio barnau cadarn am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, ac yn monitro cynnydd yn ofalus. Defnyddiant adborth a gasglwyd o deithiau dysgu, craffu ar waith a barn dysgwyr i lywio eu gwaith. Maent yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â chyngor o'r tu allan i'r ysgol, gan gynnwys ymweliadau cymorth gan ymgynghorydd gwella'r ysgol ac o brosiect cydweithio proffesiynol gydag ysgolion clwstwr. O ganlyniad, mae cynlluniau ar gyfer gwella yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn gywir ac yn sicrhau yr eir i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent yn monitro cyllid yr ysgol yn ofalus i wneud yn siŵr fod disgyblion yn elwa'n uniongyrchol ar wariant, a defnyddir y grant datblygu disgyblion yn briodol i helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Cânt ddiweddariadau rheolaidd gan staff, a chan ddisgyblion o bryd i'w gilydd, am gynnydd tuag at feysydd i'w datblygu. Mae'r llinellau cyfathrebu clir hyn yn sicrhau bod llywodraethwyr yn deall pam y nodwyd y blaenoriaethau hyn ac yn eu helpu i herio a chynorthwyo arweinwyr yn briodol i symud yr ysgol ymlaen. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac mae llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol i gynnal diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol.

Er bod pandemig COVID-19 yn ddiweddar wedi lleihau'r cyfleoedd i lywodraethwyr gael eu cynnwys yn llawn ym mhroses hunanwerthuso'r ysgol, maent yn dechrau ailsefydlu eu rolau ac yn cynorthwyo'r ysgol i archwilio tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi gwelliant. Mewn ychydig o enghreifftiau diweddar, mae llywodraethwyr yn rhannu arsylwadau ystyriol am yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn ystod eu hymweliadau â'r ysgol. Maent yn gwneud awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i ymestyn darpariaeth yr ysgol, fel disgyblion yn arddangos eu gwaith ar gyfer y gymuned yn Yr Hen Lys.

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cryf o ddysgu a datblygiad personol ar draws yr ysgol. Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol gyfan, ac yn annog staff i chwilio am gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n eu hysbrydoli. O ganlyniad, mae dysgu proffesiynol yn aml yn gwella medrau athrawon yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r prosiect 'gofodau cyfeillgar i gyfathrebu' wedi cael effaith gadarnhaol ar ymagwedd yr ysgol at ddysgu yn y cyfnod sylfaen. Mae llwyddiant prosiectau eraill yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd wedi cael eu rhannu'n ehangach gan y consortiwm lleol i gefnogi gwelliannau ar draws ysgolion. Ar ôl y pandemig, mae arweinwyr yn dechrau ailsefydlu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer cydweithio ag ysgolion eraill i rannu arbenigedd a chefnogi datblygiad blaenoriaethau cyffredin ar draws y clwstwr.

Er bod effaith dysgu proffesiynol ar flaenoriaethau'r ysgol yn cael ei monitro'n ofalus gan arweinwyr, mae cyfleoedd i staff rannu arfer dda a myfyrio ar effaith eu gwaith ochr yn ochr â chydweithwyr yn digwydd yn llai aml ers y pandemig. Mae hyn yn

golygu nad yw staff bob amser yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn uchafu effeithiolrwydd y dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy’n digwydd yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2022